| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 24 Hydref 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Cyng. Barry Mellor / Emlyn Jones** |
| **Pennaeth y Gwasanaeth** | **Paul Jackson** |
| **Awdur yr adroddiad** | Andy Clark |
| **Teitl** | Ysguboriau Halen (De) Lôn Parcwr a Chorwen |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae angen caniatâd gan y Cabinet i symud ymlaen â phrosiect ysguboriau halen (de) i'r cam caffael a thendr, mae'r Grŵp Rheoli Asedau a CSG wedi cadarnhau eu cefnogaeth ar gyfer yr Achosion Busnes.

1.2. Yn sgil y ffordd y mae'r prosiectau yma wedi cael eu strwythuro, mae angen i'r Cabinet gynnig cymeradwyaeth bellach gan fod cyfanswm y gwerth yn uwch na'r trothwy o £2m. Mae'r cyllid yma eisoes wedi cael ei ddyfarnu a bydd yn hwyluso'r gwaith o ddylunio ac adeiladu dau gyfleuster sortio halen pwrpasol, un ar gyfer depo Lôn Parcwr, Rhuthun ac un ar gyfer depo Corwen, yn ogystal â darparu cyfleusterau lles drwy gael gwared ar yr adeiladau 'Portakabin' dros dro sydd yn gweithredu fel cyfleuster lles a storfa cyfarpar ar hyn o bryd yng Nghorwen. I gefnogi'r egwyddor ymhellach o sicrhau bod unrhyw adeilad newydd yn cael ei ddylunio a'i ddatblygu mewn modd sydd yn lleihau costau gweithredol parhaus ac yn lleihau effaith amgylcheddol yr adeiladau.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cafodd y cynigion yma eu datblygu o dan ddau brosiect ar wahân, ond erbyn hyn mae'r ddau wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd gan y tîm dylunio ac adeiladu gyda'r bwriad o'u tendro fel prosiectau dylunio ac adeiladu, ac o ganlyniad mae

cyfanswm gwerth y prosiect yn fwy na'r trothwy o £2m ac mae angen cymeradwyaeth bellach gan y Cabinet er mwyn symud y prosiect yn ei flaen i'r cam caffael a thendro.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo proses dendro a chaffael y prosiect er mwyn datblygu adeiladau newydd a hwyluso storfa ddiogel a chywir ar gyfer halen at ddibenion gweithrediadau cynnal a chadw'r gaeaf sydd yn gwasanaethu de y Sir, ynghyd â gwelliannau llety a storfa a lles yn safle Corwen.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les **(Atodiad A)** fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol yn gweithredu swyddogaethau Gwasanaethau Stryd a Phriffyrdd yn ne'r Sir o ddepos Tŷ Newydd, Corwen a Lôn Parcwr, Rhuthun, a'r depos yma yw'r ganolfan ar gyfer holl weithrediadau cynnal a chadw'r gaeaf ar gyfer 5 o'r 9 o lwybrau graeanu. Yn y blynyddoedd diwethaf, maent wedi buddsoddi yn rhai o'r cyfleusterau gweithredol yn y ddau safle ac maent yn credu bod y safleoedd yma mewn lleoliad da yn strategol rŵan ac ar gyfer y dyfodol, ac felly maent yn rhagweld y bydd yna ofyniad hirdymor i barhau i ddefnyddio'r ddau safle. Ar ben hynny, yn ddiweddar rhoddodd y Cyngor ganiatâd ar gyfer buddsoddi i ddatblygu cyfleusterau lles yn safle Lôn Parcwr, Rhuthun, a fydd yn cynnwys rhywfaint o fesurau dros dro, tra bod achos busnes yn cael ei lunio ar gyfer gwelliannau hirdymor a pharhaol.

4.2. Serch hynny, mae yna broblem sylfaenol gyda chyfleusterau storio halen yn ein depos sydd wedi arwain at bryderon amgylcheddol yn cael eu mynegi, yn ogystal â risg i gadernid gweithrediadau gaeaf y gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, mae cyfleusterau lles i staff yn ein depo yng Nghorwen yn llawer is na'r safonau a ddisgwylir gan wasanaeth modern. At y diben hwnnw rydym wedi llunio prosiect i fynd i'r afael â'r pryder yma gyda dwy ysgubor halen newydd a chyfleusterau lles newydd sydd wedi cael eu cymeradwyo'n llwyddiannus i gael cyllid gan y Grŵp Buddsoddi Strategol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r cynigion yn cefnogi Blaenoriaeth Gorfforaethol y Cyngor i ddarparu Sir Ddinbych sydd yn fwy gwyrdd ac wedi'i gysylltu'n well yn y ffyrdd canlynol:

Lleihau allyriadau carbon o asedau'r Cyngor;
Cynyddu darpariaeth ynni adnewyddadwy a mannau gwefru cerbydau trydan ar draws y sir;
Cyfrannu tuag at ddatganiad argyfwng hinsawdd y Cyngor a dyheadau o fod yn sero net erbyn 2030;
Galluogi mwy o effeithlonrwydd a hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth tra'n cynnal gweithrediadau cynnal a chadw'r gaeaf.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae £2,231,060.13 wedi cael ei gymeradwyo gan CSG i gwblhau'r prosiect, £1,302,232.17 ar gyfer depo Lôn Parcwr a £928,827.96 ar gyfer depo Corwen.

Fe fydd y cynigion yma'n cael effaith gadarnhaol sylweddol ar Wasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol, gan ddarparu cyfleusterau lles a storio priodol sydd yn addas i'w diben. Fe fydd yn fanteisiol ac yn darparu amgylchedd mwy effeithlon, mwy diogel o weithio i'r staff, gan sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda safonau amgylcheddol, tra'n darparu cadernid pellach ar gyfer gwaith cynnal a chadw'r gaeaf a darparu gwasanaeth yn ystod tywydd gwael.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Ar y cyfan, fe fydd y prosiect yma'n cael effaith gadarnhaol ac yn helpu'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon ac yn cyfrannu tuag a chreu economi carbon isel. Mae'r prosiect yn edrych tuag at y dyfodol hirdymor ac fe allai ddarparu prosiect enghreifftiol o ran y math o adeilad y dylem ni fod yn ei hyrwyddo fel Cyngor wrth symud ymlaen. Yn fwy sylweddol, fe fydd hyn yn sicrhau bod ein safleoedd depo yn cydymffurfio'n llawn o ran safonau amgylcheddol presennol ac felly yn lleihau'r potensial ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau o lygredd posibl yn y dyfodol a allai arwain at ddirwyon i'r awdurdod a allai niweidio ein henw da.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd y prosiect ei rannu gyda, a'i gefnogi gan y Grŵp Rheoli Asedau ac mae'n aros am gefnogaeth bellach gan y Grŵp Buddsoddi Strategol.

8.2. Cyflwynwyd y prosiect i'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn 2022 lle cafodd ei groesawu a chafodd gymeradwyaeth.

8.3. Mae ymgynghoriadau bellach wedi cael eu cynnal gyda staff ynghyd â defnyddwyr gwasanaeth eraill a phartneriaid a fyddai'n defnyddio'r cyfleusterau yn yr adeilad, neu ar y safle.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r ddau brosiect wedi derbyn pob cymeradwyaeth angenrheidiol ac mae'r cyllid yn barod. Mae'r adroddiad yma'n yn ymwneud â cham caffael y prosiect.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r risgiau allweddol canlynol wedi'u nodi:

Os nad yw'r prosiect yn symud yn ei flaen mewn modd amserol mae yna risg o weithred gyfreithiol o beidio â chydymffurfio gyda safonau amgylcheddol presennol sydd yn risg sylweddol i weithrediadau cynnal a chadw'r gaeaf ym mhob depo.

Costau'n cynyddu - mae costau wedi cael eu paratoi'n fewnol gan weithwyr eiddo proffesiynol. Efallai y bydd angen newid y dull/deunyddiau adeiladu er mwyn aros o fewn y gyllideb y cytunwyd arni. O ystyried y marchnadoedd ansefydlog ac ansicrwydd gyda phrisiau tanwydd, cyflenwyr, costau deunyddiau ac ati, gallai unrhyw oedi arwain at gostau cynyddol yn y dyfodol i wneud y gwaith adeiladu a gwelliannau safle angenrheidiol.

Caniatâd cynllunio ddim yn cael ei sicrhau - mae ymchwiliadau cychwynnol yn dangos nad yw cael caniatâd cynllunio ar gyfer y cynnig yma'n debygol o fod yn broblem, yn sgil diffyg eiddo preswyl yn ardal y datblygiad arfaethedig.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 1972